# SUT Y GALLWN NI WARCHOD BIOAMRYWIAETH?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ymchwilio i ystyr 'bioamrywiaeth' cyn asesu bioamrywiaeth tiroedd eu hysgol neu eu hardal leol. Maen nhw'n ymchwilio i ddarganfod mwy am anifail sy'n byw yn yr amgylchedd lleol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cadwynau bwyd a gweoedd bwyd. Mae dysgwyr yn datblygu syniadau ar gyfer gwarchod yr amgylchedd lleol a'u rhoi ar waith. Yna, maen nhw'n meddwl sut mae anifeiliaid yn addasu er mwyn iddyn nhw fod yn addas i'w hamgylchedd. Mae hyn yn dechrau gydag astudiaeth o bryfed lludw* ('woodlice') a'r cyflyrau sydd yn well ganddynt fyw ynddynt, er mwyn i'r dysgwyr allu gweithredu ar rai o syniadau syml i warchod pryfed lludw yn yr amgylchedd lleol. Yna, maent yn edrych ar y modd y mae anifeiliaid eraill yn addasu, cyn dyfeisio anifail dychmygol a all oroesi mewn anialwch.

* Mae'r enw Cymraeg am bryfed lludw ('woodlice') yn amrywio o ardal i ardal yng Nghymru. Gallwch ddefnyddio'r enw 'pryfed lludw' neu enw arall sy'n cael ei ddefnyddio yn eich ardal leol.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o recordio golygfeydd a synau, e.e. tabled, ffôn clyfar, papur a phensiliau, ac ati.
Allweddi adnabod neu apiau ar gyfer planhigion ac anifeiliaid cyffredin ym Mhrydain.
Cyfrif Hwb (Office 365) neu https://sway.office.com/ (Saesneg yn unig).
Ar gyfer pob grŵp neu bâr er mwyn creu siambrau dewis ar gyfer pryfed lludw: dwy ddysgl petri, cardbord, tywelion papur, tortsh neu lamp, siswrn, amserydd, llwy (i godi'r pryfed lludw).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH A OLYGWN WRTH 'FIOAMRYWIAETH'?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall beth yw bioamrywiaeth.

## Sgrîn 3

Ar y sgrin gyntaf, ysgogir gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol dysgwyr. Gwahoddwch y dysgwyr i astudio'r ddelwedd sy'n darlunio bioamrywiaeth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei weld yn y ddelwedd?
- Beth yw ystyr 'bioamrywiaeth' yn eich barn chi? Pam?
- Ble ydych chi wedi clywed y term 'bioamrywiaeth' o'r blaen? At beth yr oedd yn cyfeirio?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i feddwl am 5 gair y gallen nhw eu defnyddio i ddisgrifio neu ddiffinio bioamrywiaeth. Yna, gofynnwch iddynt ddefnyddio rhai o'r geiriau hyn i ysgrifennu 'brawddeg aur' i egluro i eraill beth yw bioamrywiaeth.

**Bioamrywiaeth yw....**

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau isod i gymharu eu diffiniad nhw â diffiniad y National Geographic o fioamrywiaeth:

**'Bioamrywiaeth yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth enfawr o fywyd ar y Ddaear.'**

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r diffiniad yn cymharu â'ch brawddeg?
- Sut mae'r diffiniad yn wahanol?
- Sut mae'r diffiniad yn debyg?

## Sgrîn 6

Ar y sgrin hon, darperir eglurhad o sut mae bioamrywiaeth yn cael ei ddiffinio ar lefelau uwch. Hynny yw, mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at yr holl rywogaethau mewn un rhanbarth neu ecosystem. Darperir diffiniad o rywogaeth. Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at bob organeb (peth byw), gan gynnwys planhigion, bacteria, anifeiliaid a bodau dynol.

Mae yna hefyd rai ffeithiau diddorol yn yr adran ‘A wyddech chi?’:

- Mae gwyddonwyr yn amcangyfrif bod tua 8.7 miliwn o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn bodoli.
- Dim ond tua 1.2 miliwn o rywogaethau sydd wedi’u hadnabod a’u disgrifio hyd yn hyn.
- Pryfed yw’r rhan fwyaf o rywogaethau sydd wedi eu hadnabod a’u disgrifio (mwy nag 1 filiwn).
- Mae miliynau o organebau eraill yn parhau i fod yn ddirgelwch llwyr i ni.

TASG 2

# SUT Y GALLWN NI ASESU BIOAMRYWIAETH EIN HARDAL LEOL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw’n treulio peth amser yn yr ardal o amgylch yr ysgol er mwyn ceisio asesu ei bioamrywiaeth.

## Sgrîn 3

Cyn iddyn nhw fynd allan, gofynnwch i bob pâr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fathau o blanhigion ac anifeiliaid rydyn ni’n meddwl y byddwn ni’n dod o hyd iddyn nhw ar dir ein hysgol/ardal leol? Pam?
- Sut ydyn ni’n mynd i adnabod y planhigion a’r anifeiliaid rydyn ni’n dod o hyd iddyn nhw?
- Sut gallwn ni gasglu tystiolaeth o’r mathau o blanhigion ac anifeiliaid rydyn ni’n dod o hyd iddyn nhw? Pam ei chasglu fel hyn?
- Weithiau byddwn yn dod o hyd i arwyddion o anifeiliaid sy’n byw mewn amgylchedd, heb eu gweld go iawn. Pa arwyddion o fywyd allwn ni eu gweld neu eu clywed?

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i roi cynnig ar y gweithgaredd rhyngweithiol.
Yn yr awyr agored, bydd angen i chi:

- geisio adnabod y planhigion a’r anifeiliaid y dewch o hyd iddynt
- casglu tystiolaeth o blanhigion ac anifeiliaid ar gyfer eu hadnabod yn ddiweddarach
- casglu tystiolaeth o arwyddion bywyd pan na fyddwch chi’n gweld yr anifail.

Pa bump o'r rhain fyddai fwyaf defnyddiol i chi eu cymryd i'r awyr agored...
ap adnabod
cwmpawd
lluniau o adar
allweddi adnabod
lluniau o blanhigion
modd o gofnodi golygfeydd
rhaw
modd o recordio synau
bag plastig
papur a beiro
tâp mesur.

Gofynnwch i'r dysgwyr egluro pam y bydd arnynt angen pob eitem a ddewiswyd, a pham na fydd angen eitemau eraill arnyn nhw.

## Sgrîn 5

Ar y sgrin hon, rhoddir y cyfarwyddyd canlynol: Ewch allan i'r awyr agored a cheisiwch ddod o hyd i dystiolaeth o gynifer o fathau o blanhigion ac anifeiliaid ag y gallwch.

## Sgrîn 6

Ar ôl dychwelyd i adeilad yr ysgol, gofynnwch i'r dysgwyr ymuno â phâr arall a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa anifeiliaid a phlanhigion y daethoch chi o hyd i dystiolaeth ohonynt yn yr awyr agored?
- Sut oeddech chi'n gwybod fod pob organeb yn byw yno?
- Pa mor hyderus ydych chi o'ch canfyddiadau? Pam?
- Beth arall allech chi ei wneud i ddarganfod anifeiliaid a phlanhigion eraill sy'n byw yn yr awyr agored? Sut gallai hyn helpu?

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i gwblhau'r tabl i ddangos beth ddaethon nhw o hyd iddo. Gallech wneud hyn ar ffurf rhestr wedi ei choladu ar y bwrdd gwyn, er mwyn arbed amser.

## Sgrîn 8

Rhowch un math o anifail ar hap i bob pâr. Gwahoddwch y dysgwyr i ddarganfod mwy am yr anifail hwn trwy wneud ymchwil ar y rhyngrwyd. Rhoddir syniadau am y mathau o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol, megis:

- Beth mae'n ei fwyta?
- Sut mae'n cael ei fwyd?
- Ble mae'n byw yn yr amgylchedd? (ei gynefin)
- Beth yw'r cyflyrau yn ei gynefin?
- Sut mae'n addas ar gyfer byw yn ei gynefin?

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n defnyddio'r wybodaeth hon i greu Sway am yr anifail, er mwyn ei rannu ag eraill.

## Sgrîn 9

Ar y sgrin hon, rhoddir manylion ynghylch sut i greu Sway.

- Mewngofnodwch i'ch cyfrif Hwb a chael mynediad i Office 365. Dewch o hyd i Sway a'i agor. Neu cliciwch yma i gael mynediad i Sway: Sway (Saesneg yn unig).
- Cliciwch Creu o'r Newydd (Create new).
- Bydd cerdyn Sway yn ymddangos; nawr ychwanegwch deitl i'ch Sway. Gallech chi ddefnyddio enw'r anifail rydych chi wedi ymchwilio iddo.
- Cliciwch ar y Ddelwedd Gefndir (Background image). Bydd Sway yn dechrau chwilio am ddelweddau sy'n ymwneud â'ch teitl. Bydd y rhain yn cael eu harddangos ar yr ochr dde. Cliciwch ar y categori sy'n addas i'ch teitl. Dewiswch ddelwedd a'i llusgo a'i gollwng ar eich cerdyn teitl. Gallwch chwilio am fideos yn yr un modd.
- Nawr cliciwch ar Chwarae (Play)... Bydd Sway yn defnyddio algorithmau sy'n seiliedig ar ddylunio graffeg i awgrymu'r ymddangosiad.
- Gallwch ymarfer newid y dyluniad graffeg.
- Cliciwch ar + i ychwanegu delweddau eraill yn ogystal â thestun, er mwyn cynnwys yr hyn rydych wedi'i ddarganfod am eich anifail.
- Rhannwch eich Sway gyda'r dosbarth.

TASG 3

# SUT MAE'R ORGANEBAU Y DAETHOM O HYD IDDYNT YN RYNGDDIBYNNOL?

Eglurwch wrth y dysgwyr fod holl organebau'r Ddaear yn dibynnu ar organebau eraill am fwyd, lloches, cynefin, ac ati. Yn y dasg hon, maen nhw'n mynd i feddwl sut mae organebau'n ryngddibynnol a chymhwyso hyn i'w helpu i warchod yr amgylchedd lleol.

## Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i gwblhau'r diagram o gadwyn fwyd i ddangos sut mae'r anifail a astudiwyd ganddynt yn bwydo. Ar y sgrin, dangosir sut y gellir ymestyn cadwyn fwyd trwy ychwanegu organebau cyn ac ar ôl.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i barau o ddysgwyr dynnu llun tair cadwyn fwyd ar gyfer eu hanifail. Dywedwch wrthyn nhw fod angen i bob cadwyn fwyd ddechrau gyda phlanhigyn gwahanol neu orffen gydag anifail gwahanol.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio eu cadwynau bwyd o'r sgrin flaenorol i ffurfio gwe fwyd.

## Sgrîn 6

Ar y sgrin hon, dywedir wrth y dysgwyr bod cadwynau bwyd a gweoedd bwyd yn dangos sut mae egni a mater yn cael eu trosglwyddo o un organeb i'r llall wrth iddynt fwydo. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae'r egni'n dod ar ddechrau cadwyn fwyd neu we bwyd? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
- Pa fathau o fater sy'n mynd o un organeb i'r llall pan mae'n bwydo? Beth mae'r organeb yn ei wneud â'r mater hwn?
- Pam ydych chi'n meddwl bod anifeiliaid mewn cadwyn fwyd neu we fwyd yn cael eu galw'n ysyddion?

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr roi cynnig ar y cwestiwn i gyfleu eu meddyliau ynglŷn â pham mae planhigion mewn cadwynau bwyd a gweoedd bwyd yn cael eu galw'n gynhyrchwyr.

Gelwir planhigion yn gynhyrchwyr oherwydd eu bod yn...

- cynhyrchu egni
- amsugno egni o'r Haul
- gwneud bwyd i anifeiliaid
- gwneud siwgrau a phroteinau
- gallu atgynhyrchu.

Wrth iddyn nhw ddethol eu syniadau am y tro cyntaf, gofynnwch iddyn nhw egluro eu rhesymu. Ceisiwch ddileu'r syniad y gall unrhyw beth 'gynhyrchu' egni – ni ellir gwneud egni na'i ddinistrio, dim ond ei arbed.

## Sgriniau 8-9

Gwahoddwch y dysgwyr i geisio cwblhau'r we fwyd trwy gynnwys saethau sy'n dangos sut mae egni'n llifo trwy we fwyd.

Unwaith eto, wrth iddynt weithio ar yr adnodd rhyngweithiol, gofynnwch iddynt am eu rhesymu. Yna, dangoswch y we fwyd wedi'i chwblhau iddynt.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu hamgylchedd lleol a'r amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid y daethant o hyd iddynt. Yna, gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut dylen ni warchod yr amgylchedd lleol?
- Beth allwn ni ei wneud i sicrhau nad yw amodau'n newid dros amser?
- Sut gallwn ni helpu'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw yno, i aros yno?

Gwahoddwch nhw i wneud rhestr o 5 peth y gallen nhw ei wneud i warchod yr amgylchedd lleol.

Gallech chi rannu'r syniadau hyn ag ysgolion eraill yng Nghymru.

## Sgrîn 11

Er mwyn mynd â'u syniadau ymhellach, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai o'n syniadau ddylen ni eu gweithredu er mwyn gwarchod yr amgylchedd lleol?
- Sut ydyn ni'n mynd i wneud hyn?
- A oes angen i ni greu rhywbeth? Os felly, beth a sut?
- A oes angen i ni siarad â rhywun? Os felly, â phwy y dylem siarad ac am beth y mae angen i ni siarad?
- Oes angen i ni anfon e-bost at unrhyw un? Os felly, at bwy y dylem ysgrifennu a beth sydd angen i ni ei fynegi?
- Sut ydyn ni am ddod i wybod a yw ein syniad yn gweithio ai peidio?

## Sgrîn 12

Ar y sgrin hon mae'r cyfarwyddyd: Gweithredwch ar eich syniad i warchod yr amgylchedd lleol.

## Sgrîn 13

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar y dasg gyfan trwy gwblhau o leiaf un o'r isod ar gychwyn brawddeg, ac yna rhannu'r rhain gyda'r dosbarth. Gallwch gychwyn eich brawddegau fel hyn:

Deallais yn well pan...; Y peth wnaeth fy helpu i heddiw oedd ...; Un peth a wnaethom heddiw a wnaeth i mi sylweddoli...; Er mwyn gwella, gallwn i...; Ar ôl darllen, dwi'n ...; Gallwn i ddefnyddio'r strategaeth hon pan...; Ar ôl siarad â...; Y tro nesaf, gallwn i...; Y peth mwyaf anodd i mi oedd ...; Un syniad/peth nad ydw i'n ei ddeall ydy....

TASG 4

# SUT MAE ORGANEBAU WEDI'U HADDASU I OROESI?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i astudio pryfed lludw ('woodlice') i ddarganfod mwy am y cyflyrau y mae'n well ganddyn nhw fyw ynddynt (eu cynefin) a sut maen nhw wedi addasu i fyw yno. Yna, maen nhw'n mynd i edrych ar addasiadau eraill sy'n helpu anifeiliaid i oroesi yn eu cynefin.

## Sgrîn 3

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod nhw am fynd allan i'r awyr agored i geisio dod o hyd i bryfed lludw.

Gofynnwch iddyn nhw ystyried:

- Ble byddwch chi'n chwilio am bryfed lludw? Pam?
- Beth fyddwch chi'n ei ddefnyddio i gario'r pryfed lludw i mewn i adeilad yr ysgol? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

Sicrhewch fod y pryfed lludw yn dod i mewn i adeilad yr ysgol mewn gwasarn dail llaith, sydd o leiaf 5cm o ddyfnder.

## Sgrîn 4

Ar y sgrin hon rhoddir y cyfarwyddyd: Ewch allan gyda'ch partner a chasglu 5 i 10 o bryfed lludw. Cofiwch ble y daethoch chi o hyd i'r pryfed lludw, fel y gallwch eu rhoi yn ôl yn y mannau cywir.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ddylunio siambrau dewis, gan sicrhau fod yr offer canlynol gan bob pâr neu grŵp: dwy ddysgl petri, cardbord, tywelion papur, tortsh neu lamp, siswrn, amserydd, llwy (i godi'r pryfed lludw).

Bydd angen siambrau dewis arnynt i ddarganfod a yw'n well gan bryfaid lludw:

gyflyrau golau neu dywyll

cyflyrau llaith neu sych.

Gofynnwch i'r dysgwyr roi cynnig ar eu siambrau dewis i weld a ydyn nhw'n gweithio, ac os nad ydyn nhw, dylent eu hailgynllunio fel eu bod nhw'n gweithio.

Mae syniadau ar gyfer siambrau dewis i'w gweld yma: https://www.science-sparks.com/choice-chambers-animal-behaviour-investigation/ (Saesneg yn unig).

## Sgrîn 6

Fel rhan o'u harbrofion, gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y canlynol:

- Faint o amser fydd gan y pryfed lludw i wneud eu dewisiadau? Pam?
- Sut byddwch chi'n cofnodi eich canlyniadau?
- Sawl gwaith fyddwch chi'n ailadrodd eich arbrawf? Pam?

Yna, dylai'r dysgwyr ddefnyddio eu siambrau dewis i ddarganfod pa gyflyrau sydd yn well gan bryfed lludw fyw ynddynt.

## Sgrîn 7

Gan fod y dysgwyr wedi dod i wybod am y cyflyrau sydd orau gan bryfed lludw, eglurwch wrthynt eu bod nhw nawr am ddefnyddio chwyddwydr i arsylwi ar bryfed lludw a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallen ni ddisgrifio sut olwg sydd ar bryfed lludw? Pa eiriau ddylen ni eu defnyddio?
- Mae pryfed lludw wedi addasu i fyw yn eu cynefin. Pa nodweddion sydd gan bryf lludw sy'n ei helpu i fyw'n dda yn ei gynefin?

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychwelyd y pryfed lludw i'w hamgylchedd yn yr awyr agored.

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i wylio'r fideo (ychydig dros funud o hyd). Yna, gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaeth eich synnu yn y fideo? Pam?
- Sut gwnaeth y fideo gefnogi'r hyn a ddysgoch chi am bryfed lludw?
- Sut mae pryfed lludw wedi addasu i fyw yn eu cynefin?
- Ble arall fyddech chi'n disgwyl dod o hyd i anifeiliaid tebyg i bryfed lludw (cramenogion)? Pam?

## Sgrîn 9

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl sut gallen nhw warchod pryfed lludw ar dir yr ysgol, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwn ni ei wneud i helpu pryfed lludw i oroesi ar dir ein hysgol?
- Sut bydd ein syniadau yn helpu pryfed lludw i oroesi? Sut ydyn ni'n gwybod hynny?

Yna, dylai'r dysgwyr ddewis dau beth y gallant eu gwneud yn gyflym ac yn hawdd i helpu pryfed lludw i oroesi, ac yna rhoi eu syniadau ar waith.

## Sgrîn 10

Ar y sgrin hon, ceir triongl myfyrio er mwyn i ddysgwyr ei ddefnyddio i ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt i astudio pryfed lludw. Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd y gwnaethon nhw weithio: yn unigol, mewn grwpiau, ar-lein, gwaith pâr. Yna, dylent ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt o'r rhestr ganlynol: darllen, ymchwilio, tynnu llun, myfyrio ar waith blaenorol, dosbarthu, trafod, creu prototeipiau, defnyddio modelau, defnyddio enghreifftiau, gwneud rhestrau. Gallant hefyd awgrymu strategaethau eraill a ddefnyddiwyd.

Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa strategaethau a weithiodd orau. Bydd y wybodaeth olaf hon yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.

## Sgriniau 11-14

Ar y bedair sgrin nesaf, ceir delweddau o anifeiliaid yng Nghymru. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl sut mae pob un wedi addasu i'w gynefin.

## Sgrîn 15

Gwahoddwch y dysgwyr i ddylunio anifail dychmygol sy'n byw yn y cyflyrau hyn...

**Mae'n byw mewn anialwch tywodlyd. Mae'r anialwch yn 30°C yn y dydd a 0°C yn y nos. Mae'n bwyta cacti i gael bwyd a dŵr. Mae'r anifail yn fwyd i lygod mawr yr anialwch ac mae'r rhain ar eu mwyaf bywiog fin nos.**

Gofynnwch i'r dysgwyr dynnu llun eu hanifail dychmygol a meddwl...

Pa addasiadau sydd eu hangen arno er mwyn gallu:

- symud ar dywod
- goroesi yn y tymereddau hyn
- bwyta cacti
- osgoi cael ei fwyta?

## Sgrîn 16

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodiadau ar eu llun i egluro sut mae nodweddion yr anifail yn ei helpu i oroesi. Yna, dylent feddwl am ei ymddygiad a gwneud nodiadau pellach ar y llun ynghylch pryd mae'n fwyaf gweithgar a pham.

Gallai'r dysgwyr rannu'r llun a'r wybodaeth am eu hanifail dychmygol gyda'r dosbarth.